# Trawsnewid Digidol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Mawrth 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


Ciplun archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 7

Ein canfyddiadau 8

Argymhellion 25

Atodiadau 28

1 Ymateb y Rheolwyr 29

2 Ynglŷn â'n gwaith 35

3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn 38

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried sut y mae dull trawsnewid digidol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o gymorth i wella gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu'r strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau. Ac fe wnaethom ystyried sut y mae'r sefydliad yn rheoli risgiau mewn perthynas â seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial.

## Pam fod hyn yn bwysig

2 Mae technoleg ddigidol yn ffactor galluogi allweddol ar gyfer llawer o'r nodau yn Cymru Iachach. Mae'r cynllun hwnnw'n dweud y bydd technolegau a dulliau digidol newydd yn rhan bwysig o'r drefn system gyfan ar gyfer iechyd a gofal yn y dyfodol.

3 Fodd bynnag, mae cyflawni trawsnewid digidol yn gryn her. Mae'n galw am fuddsoddiad, y seilwaith cywir, ac ymgysylltu â staff a'u hyfforddi. Mae angen i systemau gyfathrebu gyda'i gilydd a rhaid i sefydliadau reoli risgiau bythol gynyddol mewn perthynas â seibergadernid.

4 Nid oes a wnelo trawsnewid digidol â thechnoleg yn unig. Mae a wnelo â diwylliant ac arweinyddiaeth. Mae gan fyrddau cyrff y GIG rôl allweddol o ran cymeradwyo a pherchnogi strategaeth ddigidol y sefydliad. Mae ar fyrddau angen sicrwydd hefyd bod trawsnewid digidol yn cael ei reoli'n ddiogel ac yn effeithiol, a bod buddsoddiad yn sicrhau'r manteision bwriadedig.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

5 Mae'r Strategaeth Ddigidol wedi dyddio, ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n diweddaru hon, gyda'r nod y bydd y gwaith hwn wedi cael ei gwblhau erbyn mis Mai 2026. Er gwaethaf hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd cyson o ran cyflawni agweddau ar ei raglen ddigidol leol, a ategir gan arweinwyr ymrwymedig. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn mabwysiadu datblygiadau digidol cenedlaethol sy'n helpu i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau. Mae angen mwy o fuddsoddiad i gyflawni trawsnewid digidol yn effeithiol ar y raddfa a'r cyflymder sy'n ofynnol.

6 Mae angen i'r Bwrdd wella ei oruchwyliaeth ar ei brosiectau trawsnewid digidol lleol ac ehangu hyn i gael sicrwydd ynghylch y cynnydd ar weithio rhanbarthol. Er bod gan y Bwrdd oruchwyliaeth dda ar risgiau digidol a deallusrwydd artiffisial, mae angen bod goruchwyliaeth gryfach ar ba mor dda y mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risgiau seiber. Mae trefniadau seibergadernid wedi hen ennill eu plwyf ond byddai o fudd iddynt pe bai cynllun seibergadernid manwl yn bodoli.

7 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol ond mae angen iddo fynd ati'n well i asesu gallu digidol ar draws y sefydliad. Cyfyngedig yw'r capasiti i gefnogi hyfforddiant digidol, a byddai o fudd i'r Bwrdd Iechyd pe bai cydweithio cryfach yn digwydd rhwng timau'r gweithlu a digidol i ymdrin â'r mater hwn. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull strategol lle mae cynhwysiant digidol yn y cwestiwn, ac nid oes arweinydd dynodedig ar gyfer hynny.

8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos ymgysylltiad cryf â phartneriaid digidol gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC), Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Llywodraeth Cymru. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ddull cryf o wireddu manteision. Fodd bynnag, megis dechrau y mae gweithio rhanbarthol gyda phartneriaid.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

9 Rydym wedi cyflwyno saith argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- diweddaru ei adroddiad sicrwydd digidol cyfredol i ychwanegu goruchwyliaeth ar gyflawni ariannol;
- eglurhau statws model llywodraethu newydd arfaethedig y gyfarwyddiaeth ddigidol;
- datblygu risg seiber sy’n bodoli ar ei phen ei hun;
- sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn adlewyrchu dull o ymdrin â seiberddiogelwch;
- datblygu dull cydgysylltiedig i asesu a meithrin gallu digidol ar draws y sefydliad;
- aseinio arweinydd strategol ar gyfer cynhwysiant digidol a datblygu cynllun eglur i leihau allgau digidol; a
- gwella goruchwyliaeth ar weithio rhanbarthol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O weithlu'r Bwrdd Iechyd o oddeutu 15,994 o staff, dim ond 289 sydd wedi cwblhau 'Offeryn hunanwerthuso rhyngweithiol AaGIC' fel rhan o'r Fframwaith Gallu Digidol.

Canfu asesiad yn 2022 fod y Bwrdd Iechyd ar Gam 1 model EMRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS), a oedd yn golygu bod systemau digidol craidd yn eu lle, ond bod aeddfedrwydd digidol ar y cyfan yn dal mewn cyfnod cynnar.

Ers mis Mawrth 2025, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cael unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy i uned seibergadernid y Bwrdd Iechyd.

Rhwng 2022-23 a 2024-25, fe fuddsoddodd y Bwrdd Iechyd oddeutu £126.4 miliwn mewn refeniw digidol a £22.7 miliwn mewn cyfalaf digidol.

# Ein canfyddiadau

## Strategaeth, Cynllunio ac Arweinyddiaeth

**Mae arweinyddiaeth a chynllunio digidol y Bwrdd Iechyd yn gwella, ond gall strategaeth sydd wedi dyddio a bylchau mewn goruchwyliaeth gyfyngu ar effaith ei uchelgais digidol**

### Strategaeth a chynlluniau digidol

10 Fe gytunodd y Bwrdd ar ei Strategaeth Ddigidol yn 2019 a chan hynny mae bellach wedi dyddio. Mae'r strategaeth etifeddol hon wedi'i seilio ar bedair thema allweddol: cymuned ddigidol, sefydliad digidol, data, gwybodaeth a deallusrwydd digidol, a sylfeini digidol. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ei datblygu mewn ffordd a oedd yn cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys 'Cymru Iachach' a strategaeth Dyfodol Clinigol y Bwrdd Iechyd. Mae'n egluro:

- sut y bydd technolegau digidol yn ategu newid hirdymor o ran sut y bydd yn darparu gwasanaethau iechyd a gofal ledled Gwent;
- defnyddio offer digidol i helpu pobl i reoli eu hiechyd eu hunain; a hefyd
- cynorthwyo staff i roi gofal o ansawdd da a helpu i symud gofal i mewn i gymunedau.

11 Yn niffyg strategaeth gyfoes, mae Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) cyfredol y Bwrdd Iechyd yn nodi cynlluniau a blaenoriaethau digidol lefel uchel ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys 12 o flaenoriaethau digidol sy'n cwmpasu datblygu'r Bwrdd, gweithio rhanbarthol, gwella strwythur a threfniadau llywodraethu'r gyfarwyddiaeth, a chofnod iechyd a gofal electronig. Mae'r Bwrdd Iechyd wedyn wedi rhannu'r ymrwymiadau hyn yn fap trywydd. Mae'r rhain yn rhestru'r prosiectau digidol penodol y mae'r Bwrdd Iechyd yn amcanu at eu cyflawni bob blwyddyn.

12 Mae'r CTCI hefyd yn nodi sut y gall digidol, ochr yn ochr â newidiadau i'r gweithlu ac ystadau, helpu i alluogi gwasanaethau cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys sut y gall offer a gwybodaeth mewn amser real ym maes digidol wella llif cleifion gofal brys. Wedyn mae'r gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn monitro cynnydd, yr ydym yn ei drafod yn nes ymlaen.

13 Ar adeg ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd. Y rheswm dros hyn yw bod y dirwedd ddigidol wedi newid yn sylweddol ers 2019. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal proses ymgysylltu gynhwysfawr a sesiynau datblygu'r Bwrdd i helpu i siapio'r strategaeth newydd. Dylai'r Bwrdd gymeradwyo'r strategaeth newydd yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026. Ei fwriad yw y bydd y strategaeth newydd:

- yn cyd-fynd â chynllun 10 mlynedd y Bwrdd Iechyd, 'Gwent 2035 – Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell', a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2025;
- yn ystyried twf cyflym deallusrwydd artiffisial a beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer gofal iechyd;
- yn ei gwneud yn bosibl cyflawni datrysiadau digidol yn gyflymach; ac
- yn cwrdd â disgwyliadau cynyddol o ran sut y gall trawsnewid digidol gefnogi gofal iechyd gwell a chymunedau cryfach.

14 Gallai'r Bwrdd Iechyd ddefnyddio cryfderau a gwendidau'r strategaeth a luniwyd ganddo yn 2019 i siapio ei ddull strategol newydd. Gall wneud yn siŵr bod y strategaeth newydd yn cyfateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer gofal iechyd. Gall hefyd gyfleu darlun eglur a chyfredol o'i gryfderau, gwendidau ac aeddfedrwydd ar y cyfan lle mae digidol yn y cwestiwn. Trwy ddysgu o'r strategaeth ddiwethaf, gall y Bwrdd Iechyd egluro pa adnoddau y mae eu hangen arno, nodi'r prif risgiau i gyflawni, a sut y bydd yn tracio cynnydd ac yn mesur effaith

## Perchnogaeth y Bwrdd ar drawsnewid digidol

15 Mae'r Bwrdd yn cydnabod potensial technoleg ddigidol a'r manteision y gall eu dwyn i'r sefydliad. Mae ganddo hefyd arweinyddiaeth ddigidol gref. Mae'n cynnwys Cyfarwyddwr Digidol ac Aelod Annibynnol arbenigol ar gyfer Digidol, ac mae'r ddau'n cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd amryw bwyllgorau sy'n berthnasol i'w rolau. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gan y sefydliad yr arbenigedd cywir i lywio ei gynlluniau digidol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn parhau i gymryd rhan yng nghyfarfodydd Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Digidol Cymru Gyfan. Mae hyn yn galluogi sefydliadau i rannu gwersi, arfer da, ac ymuno â thrafodaethau digidol cenedlaethol sy'n ategu trawsnewid digidol yn y Bwrdd Iechyd.

16 Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi darparu sesiynau hyfforddi ar gyfer aelodau'r Bwrdd yn ddiweddar, ond mae wedi rhoi comisiwn i ddarparwr allanol i wneud hynny. Dylai'r hyfforddiant arfaethedig helpu aelodau'r Bwrdd i gyflawni eu swyddogaethau, craffu ar gynlluniau digidol, deall risgiau digidol a goruchwylio effaith trawsnewid digidol. Bydd y sesiynau hyn yn cael eu darparu dros y flwyddyn nesaf gan amcanu at wella gwybodaeth aelodau'r Bwrdd a chryfhau goruchwyliaeth ar waith digidol. Dylai hyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am y strategaeth ddigidol ac ystyried yr ymrwymiad canlyniadol o ran adnoddau y mae ei angen iddo ei gefnogi i gyflawni ei flaenoriaethau digidol yn effeithiol.

## Rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd

17 Er bod gan y Bwrdd strwythurau i oruchwylio gwaith digidol, nid yw adroddiadau cyfredol yn galluogi'r Bwrdd i gael digon o olwg ar sefyllfa ariannol na chynnydd strategol tymor hwy rhaglenni digidol. Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth ar gyflawni gweithrediadol ar gyfer digidol, a'r Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio sy'n goruchwylio'r modd y cyflawnir y strategaeth ddigidol. Mae'r Cyfarwyddwr Digidol yn rhoi adroddiad sicrwydd ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad, gan roi diweddariad i'r Pwyllgor am gyflawni prosiectau, eu cerrig milltir allweddol, eu risgiau, a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau'n nodi manylion ariannol megis cyllidebau, pwysau o ran costau, nac unrhyw gostau sy'n fwy na'r disgwyl. Heb yr wybodaeth hon, ni all y Bwrdd ddeall yn llawn beth yw sefyllfa ariannol rhaglenni digidol. Mae Aelodau Annibynnol yn craffu'n gryf yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Ond mae'r rhan fwyaf o'u hamser yn cael ei neilltuo i raglenni digidol cenedlaethol. Mae hyn yn golygu eu bod yn treulio llai o amser ar brosiectau digidol lleol. Mae hefyd yn lleihau trafodaeth ehangach am newid digidol tymor hwy y tu hwnt i gyflawni prosiectau.

18 Mae gwasanaethau digidol yn cael eu rheoli'n dda ar lefel weithrediadol, gyda rolau a chyfrifoldebau clir. Y Gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg (DDaTh) sy'n arwain rhaglenni trawsnewid digidol a TGCh y Bwrdd Iechyd. Mae Is-grŵp Cynnydd y Portffolio Digidol yn monitro gweithgarwch cyflawni o ddydd i ddydd. Mae'n cwrdd bob mis ac yn adrodd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Fe arsylwom ni ar yr is-grŵp yma a chanfuom fod presenoldeb ynddo'n dda a'i fod yn dangos gafael dda ar gyflawni rhaglenni. Roedd y grŵp yn adolygu statws pob rhaglen, yn asesu risgiau, ac yn ystyried lefel yr hyder mewn cyflawni prosiectau.

19 Ar hyn o bryd nid oes digon o oruchwyliaeth ar gyflawni'r strategaeth ddigidol a'r effaith y mae'n ei chael. Mae hyn yn cyfyngu ar sicrwydd i'r Bwrdd bod gweithgarwch cyflawni ar y trywydd iawn a bod risgiau, materion a manteision yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn goruchwylio'r modd y cyflawnir ei Strategaeth Ddigidol trwy'r Pwyllgor Partneriaethau, Iechyd y Boblogaeth a Chynllunio. Mae'r Aelod Annibynnol dros Ddigidol yn aelod o'r pwyllgor hwn. Fodd bynnag, er bod cynllun gwaith y pwyllgor yn datgan y bydd yn cael diweddariad blynyddol am y Strategaeth Ddigidol, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi digwydd.

20 Yn haf 2025, fe gynigiodd DDaTh strwythur llywodraethu newydd i gryfhau goruchwyliaeth weithrediadol ar raglenni digidol, eu risgiau, a llwybrau uwchgyfeirio ar eu cyfer. Roedd y cynnig yn cynnwys creu Grŵp Digidol, Data a Thechnoleg i ddarparu cyfeiriad a sicrwydd strategol ar draws gwasanaethau digidol. Byddai'r grŵp yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Digidol ac yn cael ei gefnogi gan y Prif Swyddog Gwybodaeth. Byddai'r aelodau'n cynnwys uwch arweinwyr o feysydd digidol, clinigol, gweithrediadol, y gweithlu, cyllid a Llywodraethu Gwybodaeth. Mae cynnydd y cynnig hwn yn dal i fod yn aneglur. Yn awr mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod unrhyw newidiadau'n ategu'r strategaeth ddigidol newydd ac yn helpu i gyflawni ei blaenoriaethau.

# Adnabod a rheoli risgiau

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli risgiau digidol ac yn cydnabod risgiau o ran AI sy'n dod i'r amlwg, ond mae angen sicrwydd cryfach arno o hyd ynghylch effeithiolrwydd seiberddiogelwch

### Risgiau digidol strategol

21 Mae cofrestr risgiau strategol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys un risg ddigidol drosfwaol, sef bod gan y Bwrdd Iechyd seilwaith a systemau digidol annigonol i barhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da. Mae wedi rhannu'r risg yn dri bygythiad ar wahân â sgoriau uchel:

- methiant llawn neu rannol seilwaith a systemau digidol presennol;
- yr effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau wrth roi'r systemau digidol newydd ar waith; a hefyd
- y methiant i ddatblygu datrysiadau digidol sy'n gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

22 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn craffu'n rheolaidd ar y risgiau hyn. Fodd bynnag, er bod sicrwydd rhesymol ynghylch y rheolaethau risgiau sydd yn eu lle, mae sgoriau'r risgiau'n dal i fod yn gyson uchel, yn enwedig mewn perthynas ag oedi gyda systemau cenedlaethol a graddfa'r gwaith moderneiddio seilwaith sy'n ofynnol.

23 Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn rhoi'r ffocws strategol y mae ei angen ar y risg i seiberddiogelwch eto. Mae wedi dechrau adnabod ac asesu risgiau i seiberddiogelwch, ond mae'n dal i beidio â thrin seiberddiogelwch fel risg sefydliadol lawn. Gall bygythiadau seiber achosi niwed mawr, gan gynnwys diffoddiad systemau, colli data, ac oedi cyn bod cleifion yn cael gofal. Oherwydd hyn, mae ar y Bwrdd angen risg i seiberddiogelwch sy'n bodoli ar ei phen ei hun, sy'n eglur ac a gaiff ei hasesu'n drylwyr. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod bygythiadau'n cael eu deall yn iawn, bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y rheolaethau cywir, a bod y sefydliad yn gallu diogelu gwasanaethau a gwybodaeth sensitif â hyder.

## Risgiau yn y seilwaith digidol

24 Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o fylchau yn ei seilwaith TG ffisegol, gan gynnwys caledwedd sy'n mynd yn hen ac nas cynhelir, ac mae'n monitro'r rhain trwy ei gofrestr asedau TGCh, y mae'n ei defnyddio i flaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf. Ar adeg ein gwaith ni, dim ond asedau TGCh ffisegol yr oedd y gofrestr hon yn eu cynnwys, ond roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu rhestr o gymwysiadau i adnabod pa systemau ddylai gael eu blaenoriaethu ar gyfer eu hamnewid.

25 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi buddsoddi mewn meddalwedd i adnabod TG gysgodol ar ei rwydwaith, sy'n mynd i'r afael â'r risg y bydd offer heb eu cymeradwyo'n cael eu defnyddio a allai gyflwyno bygythiadau i ddiogelwch. Bu cynnydd da o ran cyflwyno Windows 11. Fodd bynnag, cyfyngir o hyd ar gynlluniau gan gyllid cyfyngedig. Yr hyn sy'n achosi'r pryder mwyaf yw'r angen i amnewid i Weithfan Glinigol. Porth yw hwn sy'n galluogi staff i gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth glinigol a gweinyddol mewn un lle. Mae'r system hon yn fwy na 30 oed ac yn mynd o arfer. Yn ystod ein gwaith ni, roedd y Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu achos busnes i amnewid y Weithfan Glinigol er mwyn ymdrin â risgiau a blaenoriaethau cyfredol.

26 Rhaid i'r strategaeth ddigidol newydd a chynlluniau ategol ddangos sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn amnewid ac yn moderneiddio ei seilwaith etifeddol, gan adeiladu ar waith sydd eisoes ar y gweill. Fodd bynnag, mae rhaglenni'r Bwrdd Iechyd i amnewid offer eisoes yn gwella cydnerthedd ac yn creu sylfaen gryfach ar gyfer trawsnewid digidol yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith i ymdrin â gwasanaethau sydd wedi dyddio a systemau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes, megis y rhaglen diweddaru gwasanaethau critigol sy'n amnewid gweinyddion. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn diweddaru offer cyfathrebu etifeddol, gan gynnwys galwyr, ac yn bwrw ymlaen ag uwchraddio systemau y mae gofyn eu gwella.

## Seibergadernid

27 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Strategaeth Seiberddiogelwch ar ei phen ei hun, sy'n cyfyngu ar ei allu i bennu cyfeiriad a blaenoriaethau eglur ar gyfer seibergadernid. Rhaid i'r strategaeth ddigidol newydd fynd i'r afael yn llawn â risgiau i seiberddiogelwch, gan ddiffinio'r risgiau, y bygythiadau a'r cyfleoedd, yn ogystal â mesurau lliniaru, yn awr ac yn y dyfodol.

28 Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm wedi'i neilltuo i seiberddiogelwch sy'n goruchwylio seiberddiogelwch. Mae hwn yn cynnwys Rheolwr Seiberddiogelwch a thîm o uwch arbenigwyr. Mae trefniadau llywodraethu eglur yn eu lle, trwy'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth sy'n adrodd wrth y tîm gweithredol. Mae seiberddiogelwch yn eitem sefydlog yn y cyfarfodydd sicrwydd llywodraethu isadrannol. Mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth a chryfhau goruchwyliaeth y tîm seiberddiogelwch ar draws y sefydliad.

29 Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaeth y gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu trefniadau seiberddiogelwch y Bwrdd Iechyd. Rhoddodd yr adroddiad sicrwydd rhesymol, ond dywedodd fod angen i'r Bwrdd Iechyd wella sut y mae'n cyfleu risgiau seiber, yn monitro'r modd y cydymffurfir â gofynion hyfforddiant, ac yn profi ei gynlluniau seiber. Fe nododd hefyd y gall galw cynyddol a mwy a mwy o gymhlethdod greu pwysau o ran capasiti ar gyfer y tîm seiber.

30 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydweithio’n agos gydag arbenigwyr seiber y GIG yn genedlaethol ac yn cymryd rhan mewn ymarferion cadernid. Fodd bynnag, roedd cyfraddau hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth a seiber yn 77% ym mis Medi 2025, sy’n is na’r targed o 85%. Mae’r tîm seiber hefyd yn rhedeg profion gwe-rwydo i hybu ymwybyddiaeth staff, ond mae canlyniadau diweddar yn dangos bod lle i wella o hyd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn monitro digwyddiadau seiber yn weithredol. O ran y sefyllfa ym mis Gorffennaf 2025, nid oedd ganddo unrhyw ddigwyddiadau seiber adroddadwy yn y flwyddyn flaenorol.

31 Mae’r tîm seiberddiogelwch yn cynhyrchu adroddiadau misol ar berfformiad sy’n rhoi sicrwydd ynghylch mesurau diogelu allweddol. Mae’r adroddiadau hyn yn cadarnhau bod meddalwedd gwrthfeirysau’n weithredol ac yr ymdrinnir yn gyflym ag unrhyw faterion. Mae’r tîm Seiberddiogelwch yn asesu risgiau ar gyfer prosiectau a systemau newydd. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei broses gaffael ac o ganlyniad i hynny mae wedi gwneud gofynion o ran seiberddiogelwch yn rhan o gontractau newydd. Mae’r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd rhesymol o ran cyflawni’r cynllun gweithredu seiberddiogelwch mewn ymateb i ganfyddiadau archwiliad yr uned seiberddiogelwch o’i hunanasesiad dan y fframwaith asesu seiber.

## Deallusrwydd artiffisial

32 Mae’r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y gallai Deallusrwydd Artiffisial (AI) ddwyn manteision pwysig, ac mae rhai timau eisoes yn defnyddio offer AI mewn meysydd fel delweddu. Fodd bynnag, mae ei ddull yn dameidiog, am nad oes unrhyw un yn cydlynu’r dull ar draws y sefydliad. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau y bydd y Strategaeth Ddigidol newydd yn cynnwys dull mwy eglur o ymdrin ag AI.

33 Ym mis Ionawr 2026, cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar ddefnydd cyfredol y Bwrdd Iechyd o AI a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i gryfhau trefniadau llywodraethu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen diweddaru ei bolisi AI ar gyfer ymarfer clinigol a bod ar staff angen canllawiau mwy eglur ynghylch defnyddio AI yn ddiogel. I ategu hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn sefydlu is-grŵp AI newydd yn gynnar yn 2026 o fewn y gyfarwyddiaeth DDaTh. Bydd y grŵp yma'n goruchwylio ffyrdd arfaethedig o ddefnyddio AI ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion GIG Cymru ar gyfer AI. Bydd yn cynnwys cynrychiolwyr o dimau clinigol, digidol, llywodraethu, ac ansawdd a diogelwch.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig ag AI, ac fe ychwanegodd risg a oedd yn gysylltiedig ag AI at ei gofrestr risgiau corfforaethol. Mae'r risg hon yn nodi y gallai penderfyniadau clinigol anghywir neu anniogel ddigwydd os caiff offer AI eu defnyddio yn y ffordd anghywir, heb wiriadau priodol, neu heb oruchwyliaeth dda mewn lleoliadau clinigol neu weithrediadol.

# Sgiliau digidol

## Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cydgysylltiedig i feithrin gallu mewn sgiliau digidol

### Asesu sgiliau digidol

35 Er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol, nid oes ganddo ffordd strwythuredig o asesu sgiliau, capasiti na gallu ei weithlu eto. Dim ond 289 o aelodau o staff sydd wedi cwblhau Fframwaith Gallu Digidol AaGIC allan o weithlu o oddeutu 15,994 ym mis Gorffennaf 2025. Heb gynllun datblygu wedi'i dargedu, ni all y Bwrdd Iechyd weld ble y mae sgiliau digidol yn brin na pha gamau gweithredu y mae eu hangen. Dim ond hyder sylfaenol mewn TG y mae'r offeryn yn ei fesur ac nid yw'n asesu'r sgiliau ehangach y mae eu hangen ar gyfer trawsnewid digidol. Hefyd, nid oes tystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal ei asesiad ei hun o'r sgiliau ehangach hyn.

36 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu Cynllun Gweithlu Digidol a fydd yn ategu'r Strategaeth Trawsnewid Digidol newydd. Ond heb ddarlun eglur o'i allu digidol, ceir risg y bydd y Bwrdd Iechyd yn arafu ei waith trawsnewid digidol am nad yw'n gallu targedu anghenion hyfforddi, dyrannu adnoddau, na chynllunio newid i wasanaethau mewn modd cywir.

## Datblygu sgiliau digidol

37 Cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar hyn o bryd i staff y Bwrdd Iechyd ddatblygu eu sgiliau digidol. Mae timau'n cael hyfforddiant a chymorth da pan fo'r gyfarwyddiaeth yn cyflwyno meddalwedd newydd. Fodd bynnag. nid yw hyn yn ymestyn i gymorth rheolaidd gyda sgiliau digidol ar gyfer defnyddio systemau o ddydd i ddydd. Cyfyngir ar gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant gan y canlynol:

- gofynion hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n cystadlu â'i gilydd;
- cydweithio cyfyngedig gyda gweithgarwch cynllunio'r gweithlu ehangach ar lefelau gweithrediadol a chenedlaethol; a hefyd
- cyfyngiadau cyllido yn y gyfarwyddiaeth ddigidol i gefnogi hyfforddiant digidol ehangach.

38 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod yr angen i ymdrin â'r bwlch yma. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld y Strategaeth Trawsnewid Digidol wedi'i diweddaru fel cyfle i wella sgiliau digidol. Ym mis Ionawr 2026, fe benododd y Bwrdd Iechyd Brif Swyddog Gwybodaeth Clinigol i gefnogi datblygiad sgiliau digidol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd eglurhau hefyd pwy sy'n gyfrifol am y gwaith hwn a sicrhau ei fod yn cael ei gysylltu'n llawn â chynlluniau Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol.

# Cydweithio a chynnwys

## Er bod y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n dda â staff a defnyddwyr gwasanaethau, nid oes ganddo strategaeth eglur ar gyfer ymdrin ag allgau digidol

### Cynnwys staff a defnyddwyr gwasanaethau

39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda staff, cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ar brosiectau trawsnewid digidol allweddol, megis y system Fy Nghofnod Meddygol mewn wroleg a chyflwyno'r system e-bresgripsiynu i ysbytai. Roedd gan y broses o gyflwyno'r system Fy Nghofnod Meddygol grŵp o gleifion a oedd yn rhan o'i datblygu a'i chyflwyno. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cyfarfodydd misol hefyd gyda rhanddeiliaid o isadrannau corfforaethol a gweithrediadol i ddatblygu cynlluniau digidol ar gyfer y tymor canolig a hir. Y nod yw cefnogi rhaglenni trawsnewid gan gynnwys gofal a gynlluniwyd a gwaith y chwe nod ar gyfer gofal heb ei drefnu.

40 Mae ymgysylltiad clinigol â digidol yn gryf. Mae ymgysylltiad clinigwyr â phrosiectau digidol allweddol yn cael ei ennyn gyda digon o amser i sicrhau:

- mewnbwn clinigol effeithiol i ddatblygiadau o ran systemau; ac
- amser i gefnogi cydweithwyr clinigol ehangach ar ddatblygiadau digidol.

41 Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd swyddog diogelwch clinigol a rheolwr parhad busnes. Maent yn cefnogi datblygiad a gweithrediad diogel meddalwedd a ddefnyddir at ddibenion clinigol ac at ddibenion eraill.

### Lleihau allgau digidol

42 Nid yw trefniadau'r Bwrdd Iechyd i ymdrin ag allgau digidol wedi datblygu ddigon ar hyn o bryd. Trwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig 2025-28, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod allgau digidol yn her ac yn ymrwymo i ddeall anghenion digidol y gweithlu a chleifion. Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hefyd yn cynnwys adduned i'r Bwrdd Iechyd geisio achrediad tuag at y siarter cynhwysiant digidol. Ond araf yw ei gynnydd. Nid yw wedi gosod targedau mesuradwy ar gyfer ymdrin ag allgau digidol. Nid oes ganddo gynllun ychwaith i adnabod cleifion nac ymgysylltu â chleifion a all fod wedi'u hallgau, ac nid oes arweinydd dynodedig ar gyfer cynhwysiant digidol.

# Defnyddio datblygiadau digidol i roi cymorth i drawsnewid gwasanaethau

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cael gwerth o'i brosiectau digidol, ond gall cyfyngiadau o ran cyllid fod yn her gynyddol

### Buddsoddi mewn trawsnewid digidol

43 Mae'r buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol yn 1% o gyfanswm cyllideb flynyddol y Bwrdd Iechyd, ac mae'n amcangyfrif bod angen iddo fod yn nes at 3%. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r buddsoddiad cyfalaf a refeniw mewn digidol dros dair blynedd. Mae ei wariant refeniw diweddar ar ddigidol yn weddol sefydlog. Gall hyn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwasanaethau digidol neu gefnogi gwaith trawsnewid digidol newydd. Nid yw cyllid cyfalaf y Bwrdd Iechyd yn ansylweddol ychwaith, ond mae'n anodd dweud a yw hyn yn adlewyrchiad digonol o'r buddsoddiad y mae ei angen i gynnal a chadw ei seilwaith a rhoi technoleg newydd ar waith.

**Arddangosyn 1: Buddsoddiad cyfalaf a refeniw blynyddol mewn digidol (2021–22 i 2024–25)**

| Blwyddyn Ariannol | Buddsoddiad Cyfalaf £m | Buddsoddiad Refeniw £m |
|---|---|---|
| 2021-22 | 7.9 | 35.5 |
| 2022-23 | 4.5 | 30.0 |
| 2023-24 | 3.4 | 29.6 |
| 2024-25 | 6.9 | 31.3 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

44 Mae **Arddangosyn 2** yn nodi lefel arfaethedig y buddsoddiad rhwng 2025 a 2028. Bydd cyllid cyfalaf yn codi o £4.8 miliwn yn 2025-26 i £7.5 miliwn yn 2027-28. Mae’r cynnydd cyson hwn yn ategu rhaglen fuddsoddi fwy parhaus. Fodd bynnag, bydd angen i’r Bwrdd Iechyd ei sicrhau ei hun bod y modd y’i defnyddir yn cyd-fynd â blaenoriaethau’r strategaeth ddigidol newydd ac yn ddigon i’w cyflawni. Mae’r Bwrdd Iechyd hefyd yn rhagweld y bydd ei wariant refeniw digidol yn cynyddu o £32.3 miliwn i £33.4 miliwn dros yr un ffrâm amser. Mae hyn yn debygol o fod yn gynnydd is na chwyddiant ac yn awgrymu nad oes rhyw lawer o le ar gyfer ymrwymiadau digidol newydd mawr.

45 Bydd angen i’r Bwrdd Iechyd gynllunio hefyd ar gyfer sut y mae ei flaenoriaethau digidol yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng cyllid refeniw a chyfalaf. Os yw ei strategaeth yn symud ymhellach tuag at systemau a letyir, systemau yn y cwmwl, neu systemau sy’n seiliedig ar wasanaethau, gall yr angen am fuddsoddiad cyfalaf lleol leihau, ond mae costau refeniw yn debygol o godi i ategu’r dull newydd hwn.

**Arddangosyn 2: Lefelau cyllid cyfalaf a refeniw digidol a ragwelir**

| Blwyddyn ariannol | Cyfalaf £m | Refeniw £m |
|---|---|---|
| 2025-26 | 4.8 | 32.4 |
| 2026-27 | 6.0 | 32.3 |
| 2027-28 | 7.5 | 33.4 |

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd

## Prosiectau digidol lleol a rhanbarthol

46 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull cydgysylltiedig o oruchwylio a monitro'r modd y cyflawnir ystod eang o brosiectau lleol a chenedlaethol. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd 45 o brosiectau'n fyw, ar draws saith rhaglen. Mae'r rhaglenni a'r prosiectau tanategol hyn yn cynnwys acíwt, TGCh, cymuned ddigidol, cleifion digidol, gwasanaethau cymorth clinigol, ward ddigidol, a phresgripsiynu electronig. Mae gwaith cyfredol yn cynnwys uwchraddio systemau arddweud digidol, gwella delweddu endosgopi, digideiddio gofal llygaid, gwella offer bwcio apwyntiadau, a chyflwyno llythyrau digidol. Mae'r gyfarwyddiaeth DDaTh hefyd wedi cwblhau'r system famolaeth newydd ac wedi cyflwyno offeryn AI i roi cymorth i adrodd ar archwiliadau pelydr X o'r frest.

47 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn dechrau cydweithio'n agosach gyda byrddau iechyd eraill ar gynlluniau digidol rhanbarthol. Mae cydgyfarfod rhanbarthol wedi cael ei gynnal, ac mae grŵp digidol rhanbarthol ffurfiol wedi cael ei greu. Mae Byrddau Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Caerdydd a'r Fro, a Chwm Taf Morgannwg ar adeg gynnar o ran archwilio sut y gallai strategaeth ddigidol ranbarthol ar y cyd edrych. Maent hefyd yn ystyried meysydd lle gallai cydweithio ddwyn arbedion, megis trwy Microsoft 365. Mae gan y Bwrdd Iechyd eisoes gynllun digidol rhanbarthol ar gyfer cyflwyno'r system OpenEyes.

48 Bydd angen i'r Bwrdd gryfhau ei oruchwyliaeth ar waith digidol rhanbarthol. Ar adeg ein gwaith ni, nid oedd unrhyw oruchwyliaeth ffurfiol wedi bod ar y gweithgarwch a oedd yn mynd rhagddo na'r cyfleoedd rhanbarthol ehangach a oedd ar gael.

## Mabwysiadu systemau digidol cenedlaethol

49 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol ar systemau cenedlaethol. Mae eu partneriaid yn cynnwys IGDC, AaGIC, Llywodraeth Cymru, a'r Rhwydweithiau Clinigol o fewn Perfformiad a Gwella'r GIG. Mae aelodau'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar gyflawni rhaglenni cenedlaethol pwysig trwy'r adroddiad Digidol, Data a Thechnoleg i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Mae'r adroddiadau hyn yn amlygu'r llu o fentrau a phrosiectau a gyflawnir mewn cydweithrediad gyda sefydliadau partner. Maent yn amlinellu cynnydd cyfredol, llinellau amser ac yn adnabod ble y mae materion yn arafu'r cynnydd, a chamau gweithredu y mae'r Bwrdd Iechyd a phartneriaid yn eu cymryd mewn ymateb.

50 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno datrysiadau cenedlaethol i wella mynediad at wasanaethau, eu hansawdd a'u heffeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae hyn yn cynnwys caffael system wybodeg ar gyfer radioleg a'r system Rheoli Gwybodaeth Labordai.

51 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dweud bod oedi gyda rhaglenni cenedlaethol yn sylweddol. Mae'r oedi yma'n cyfyngu ar ei allu i reoli risgiau digidol a chyflawni trawsnewid ehangach. Mae'r gofrestr risgiau strategol yn amlygu llithriant yn y system Rheoli Gwybodaeth Labordai ac o ran Caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg, sy'n creu risgiau mawr i barhad gwasanaethau a chyflawni prosiectau. Mae'r achosion hyn o oedi wedi achosi i'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau uwchgyfeirio, gan gynnwys trothwyon dim goddefgarwch ac adroddiadau uniongyrchol i uwch arweinwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei drefniadau llywodraethu a goruchwylio lleol, ond ni all y camau gweithredu hyn wrthbwyso oedi sydd y tu hwnt i'w reolaeth. O ganlyniad, cyfyngir o hyd ar ei allu i foderneiddio gwasanaethau digidol a chyflawni trawsnewid ehangach.

## Gwerthuso datrysiadau digidol

52 Mae gan y Bwrdd Iechyd enghreifftiau da o werthuso ei ddatrysiadau digidol. Er enghraifft, fe adolygodd y system bresgripsiynau ddigidol a System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru. Fe fwriodd y gwerthusiadau hyn olwg ar arbedion mewn amser nyrsio a gwelliannau yn ansawdd y gofal.

53 Mae gan y Bwrdd Iechyd ddull da ar gyfer asesu manteision ar ôl iddo gyflwyno systemau digidol newydd. Mae Tîm Newid a Manteision Busnes pwrpasol yn y Gyfarwyddiaeth DDaTh yn goruchwylio’r gwaith yma ac yn cefnogi pob prosiect. Mae’r tîm yn defnyddio Fframwaith Rheoli Manteision cynhwysfawr sy’n nodi pryd ddylid cyflawni manteision a sut y bydd yn eu mesur. Mae achosion busnes yn disgrifio’r manteision a ddisgwylir hefyd, sy’n helpu’r Bwrdd Iechyd i wirio bod y rhain wedi cael eu cyflawni.

54 Mae’r gyfarwyddiaeth DDaTh yn tracio manteision ar draws pob rhaglen a chategori trwy is-grŵp Cynnydd y Portffolio Digidol. Mae hefyd yn rhedeg gweithdai manteision ar gyfer prosiectau unigol. Ar gyfer 2025-26, mae’r gyfarwyddiaeth wedi adnabod 211 o fanteision ar draws effeithlonrwydd, profiad cleifion, diogelwch, a meysydd sy’n rhyddhau arian parod.

55 Mae’r Bwrdd wedi cael cyflwyniadau ar fanteision rhaglenni digidol. Ym mis Ionawr 2025, cafodd ddiweddariad ar y system Fy Nghofnod Meddygol mewn Wroleg ac fe rannodd cleifion y manteision yr oeddent hwy wedi’u profi. Mae’r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd sy’n dynodi a yw manteision achosion busnes digidol yn cael eu cyflawni. Yn ddiweddar fe adolygodd fanteision y rhaglen Mamolaeth Ddigidol ac fe nododd welliannau i wasanaethau, staff a chleifion. Mae’r diweddariad Gwerth a Chynaliadwyedd hefyd yn tracio cyfleoedd ariannol sy’n gysylltiedig â thrawsnewid digidol.

# Argymhellion

56 Mae'r tabl canlynol yn nodi'r argymhellion sy'n codi o'n gwaith.

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei adroddiad sicrwydd Digidol i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fel ei fod yn cynnwys manylion am adrodd ariannol, gan gynnwys cyllidebau ar lefel prosiectau, gwariant cyfredol a gwariant a ragwelir ac unrhyw amrywiannau **(Paragraff 17)**. |
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd eglurhau a fydd y cynnig ynghylch strwythur llywodraethu'r gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn parhau **(Paragraff 20)**. |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu risg seiberddiogelwch eglur sy'n bodoli ar ei phen ei hun, gan gynnwys rheolaethau a threfniadau sicrwydd diffiniedig, i sicrhau bod bygythiadau'n cael eu deall yn iawn a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y mesurau lliniaru iawn **(Paragraff 23)**. |

**A4** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn ymdrin yn llawn â risgiau i seiberddiogelwch a'r trefniadau i fynd i'r afael â hwy. **(Paragraff 30)**.

**A5** Dylai'r Bwrdd Iechyd roi rhaglen gydgysylltiedig ar waith i asesu ac adeiladu gallu digidol y gweithlu, a ddylai:

**5.1** asesu/adolygu gallu digidol ar draws grwpiau o staff **(Paragraff 36)**;

**5.2** adnabod a chyflawni camau gweithredu i wella gallu digidol. Wrth wneud hynny, dylai sicrhau bod y dull yn cyd-fynd â chynlluniau hyfforddiant Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol **(Paragraffau 36 a 39)**.

**A6** Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o ymdrin â chynhwysiant digidol trwy;

**6.1** aseinio arweinydd strategol ar gyfer cynhwysiant digidol **(Paragraff 43)**;

**6.2** cynhyrchu cynllun cynhwysiant digidol mesuradwy sy'n cynnwys targedau eglur **(Paragraff 43)**; a

**6.3** asesu risgiau i gynhwysiant digidol ar systemau cleifion/cyhoeddus newydd. Wedyn dylid dylunio systemau/llwybrau gofal i alluogi hygyrchedd a llwybrau cyswllt amgen ar gyfer mynediad **(Paragraff 43)**.

**A7** Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod goruchwyliaeth ffurfiol ar weithio rhanbarthol yn ei lle, sy'n cynnwys adroddiadau rheolaidd ar fentrau digidol rhanbarthol, asesu risgiau a manteision a sicrhau bod strategaethau rhanbarthol yn cyd-fynd â chynlluniau digidol y Bwrdd Iechyd ei hun **(Paragraff 49)**.

# Atodiadau

# 1 Ymateb y Rheolwyr

| | |
|---|---|
| Corff a archwiliwyd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Enw'r archwiliad | Trawsnewid Digidol |
| Dyddiad cyhoeddi | 24 Mawrth 2026 |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A1** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru ei adroddiad sicrwydd Digidol i'r pwyllgor Cyllid a Pherfformiad fel ei fod yn cynnwys manylion am adrodd ariannol, gan gynnwys cyllidebau ar lefel prosiectau, gwariant cyfredol a gwariant a ragwelir ac unrhyw amrywiannau **(Paragraff 17)**. | O gyfarfod mis Mehefin 2026 ymlaen, bydd yr adroddiad sicrwydd Digidol i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn cynnwys adroddiadau ariannol ar lefel prosiectau ar gyfer rhaglenni digidol lleol a rhaglenni digidol cenedlaethol, gan gynnwys cyllidebau y cytunwyd arnynt, gwariant cyfredol a gwariant a ragwelir, ac unrhyw amrywiannau perthnasol. | 10 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A2** | Dylai'r Bwrdd Iechyd eglurhau a fydd y cynnig ynghylch strwythur llywodraethu'r gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg yn parhau **(Paragraff 20)**. | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i fwrw ymlaen â'r strwythur llywodraethu arfaethedig ar gyfer Digidol, Data a Thechnoleg.<br><br>Elfen derfynol y strwythur yw'r Grŵp Digidol, Data a Thechnoleg, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Meddygol i sicrhau arweinyddiaeth glinigol gref.<br><br>Bydd y cylch gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol i gael ei gymeradwyo ym mis Ebrill 2026, gyda chyfarfodydd yn cael eu hamserlennu ar gyfer y 12 mis nesaf yn dilyn ei gymeradwyo. | 31 Mai 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |
| **A3** | Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu risg seiberddiogelwch eglur sy'n bodoli ar ei phen ei hun, gan gynnwys rheolaethau a threfniadau sicrwydd diffiniedig, i sicrhau bod bygythiadau'n cael eu deall yn iawn a bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y mesurau lliniaru iawn **(Paragraff 23)**. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn datblygu risg seiberddiogelwch sy'n bodoli ar ei phen ei hun, a honno'n nodi'r bygythiadau, rheolaethau a threfniadau sicrwydd allweddol.<br><br>Bydd hon yn cael ei hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a bydd adroddiadau arni'n cael eu cyflwyno trwy | 31 Mai 2026 | Cyfarwyddwr Digidol<br><br>Gyda chymorth: |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | | brosesau rheoli risg sefydledig i sicrhau goruchwyliaeth briodol a bod camau lliniaru'n cael eu blaenoriaethu'n briodol. | | Pennaeth Risg a Sicrwydd Corfforaethol |
| **A4** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei strategaeth ddigidol yn ymdrin yn llawn â risgiau i seiberddiogelwch a'r trefniadau i fynd i'r afael â hwy **(Paragraff 30)**. | Un o'n nodau yn ein cenhadaeth strategol yw cryfhau ein cadernid seiberddiogelwch a fydd yn cael ei gyrraedd trwy Gynllun Seilwaith eglur a map trywydd ar gyfer amnewid a diweddaru'r seilwaith. | 30 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |
| **A5** | Dylai'r Bwrdd Iechyd roi rhaglen gydgysylltiedig ar waith i asesu ac adeiladu gallu digidol y gweithlu, a ddylai: | Un o genadaethau craidd ein cynllun digidol wedi'i ddiweddaru yw 'Meithrin y Gallu Sefydliadol ar gyfer Trawsnewid Digidol'.<br><br>Bydd y genhadaeth hon yn cael ei chydlynu gyda chydweithwyr Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol i sicrhau dull strwythuredig a chyson o asesu a datblygu gallu digidol. | 31 Mawrth 2028 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | 5.1: Asesu/adolygu gallu digidol ar draws grwpiau o staff **(Paragraff 36)**; | Bydd ein Prif Swyddog Gwybodaeth X yn arwain yr asesiad o allu digidol ar draws grwpiau o staff, gan ddefnyddio Fframwaith Gallu Digidol AaGIC.<br><br>Mae asesiadau cychwynnol wedi cael eu cwblhau o fewn Fferylliaeth, gyda rhaglen raddol o asesiadau ar draws y gweithlu ehangach i gael ei chwblhau erbyn mis Mawrth 2028. | 31 Mawrth 2028 | Cyfarwyddwr Digidol |
| | 5.2: Adnabod a chyflawni camau gweithredu i wella gallu digidol. Wrth wneud hynny, dylai sicrhau bod y dull yn cyd-fynd â chynlluniau hyfforddiant Datblygu’r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol **(Paragraffau 36 a 39)**. | Yn seiliedig ar ganlyniadau’r asesiadau o allu digidol, bydd y Bwrdd Iechyd yn adnabod ac yn cyflawni camau gweithredu wedi’u targedu i ymdrin â bylchau. Bydd hyn yn cynnwys datblygu cymunedau ymarfer digidol a chynlluniau hyfforddiant wedi’u teilwra, sy’n cyd-fynd â darpariaeth Datblygu’r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a Chynllun Pobl y Bwrdd Iechyd. | 31 Mawrth 2028 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| **A6** | Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei ddull o ymdrin â chynhwysiant digidol trwy: | Mae Cynllun Trawsnewid Digidol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys egwyddor bod cynhwysiant digidol yn rhywbeth nad yw'n agored i drafodaeth. Bydd yr egwyddor hon yn cael ei gwreiddio trwy drefniadau arwain, cynllunio a sicrwydd a nodir yn y camau gweithredu isod. | Amh. | Cyfarwyddwr Digidol |
| | 6.1: Aseinio arweinydd strategol ar gyfer cynhwysiant digidol **(Paragraff 43)**; | Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Trawsnewid Digidol, bydd arweinydd strategol ar gyfer cynhwysiant digidol yn cael ei aseinio'n ffurfiol i ddarparu goruchwyliaeth ac atebolrwydd sefydliadol. | 31 Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |
| | 6.2: Cynhyrchu cynllun cynhwysiant digidol mesuradwy sy'n cynnwys targedau eglur **(Paragraff 43)**. | Yn dilyn penodi arweinydd cynhwysiant digidol, bydd cynllun cynhwysiant digidol mesuradwy â thargedau diffiniedig yn cael ei ddatblygu. | 31 Mawrth 2027 | Cyfarwyddwr Digidol |

| Cyf | Argymhelliad | Sylwebaeth ar y camau gweithredu arfaethedig | Dyddiad cwblhau ar gyfer y camau gweithredu arfaethedig | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|---|
| | 6.3: Asesu risgiau i gynhwysiant digidol ar systemau cleifion/cyhoeddus newydd. Wedyn dylid dylunio systemau/llwybrau gofal i alluogi hygyrchedd a llwybrau cyswllt amgen ar gyfer mynediad **(Paragraff 43)**. | Bydd egwyddorion cynhwysiant digidol yn cael eu cymhwyso i'r holl ddatblygiadau digidol newydd sy'n ymwneud â chleifion a'r cyhoedd. Bydd trefniadau llywodraethu digidol yn cynnwys asesiad penodol o risgiau i gynhwysiant digidol ochr yn ochr â phrosesau sicrwydd presennol ar gyfer seiberddiogelwch, llywodraethu gwybodaeth a diogelwch cleifion. | 31 Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |
| **A7** | Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod goruchwyliaeth ffurfiol ar weithio rhanbarthol yn ei lle, sy'n cynnwys adroddiadau rheolaidd ar fentrau digidol rhanbarthol, asesu risgiau a manteision a sicrhau bod strategaethau rhanbarthol yn cyd-fynd â chynlluniau digidol y Bwrdd Iechyd ei hun **(Paragraff 49)**. | Mae trefniadau llywodraethu ffurfiol ar gyfer mentrau digidol rhanbarthol yn cael eu datblygu gyda Chyfarwyddwyr Digidol ledled De Ddwyrain Cymru a'r Cydweithrediad Rhanbarthol.<br><br>Bydd y trefniadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Rheoli Gweithredol Rhanbarthol ym mis Mai 2026. Unwaith y cytunir arnynt, bydd adroddiadau rheolaidd ar fentrau digidol rhanbarthol, gan gynnwys risgiau, manteision a chysondeb â chynlluniau digidol y Bwrdd Iechyd, yn cael eu darparu trwy adroddiadau presennol ar raglenni i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd. | 30 Mehefin 2026 | Cyfarwyddwr Digidol |

# 2 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Nod yr archwiliad hwn yw canfod a yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio technoleg ddigidol i roi cymorth i foderneiddio gwasanaethau ac ategu eu heffeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys y dull o ddatblygu strategaeth, arweinyddiaeth a sgiliau ar gyfer trawsnewid digidol, a sut y mae risgiau o ran y seilwaith digidol, seibergadernid a deallusrwydd artiffisial yn cael eu rheoli.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe ymdriniodd ein harchwiliad â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Bwrdd Iechyd ddull trawsnewid digidol a arweinir yn dda ac y darperir adnoddau priodol ar ei gyfer?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn datblygu sgiliau, capasiti, a gallu digidol ei weithlu?
- A oes gan y Bwrdd Iechyd gynllun eglur ar gyfer rheoli ei drefniadau seibergadernid a'i seilwaith digidol a sut y bydd angen iddynt newid i ategu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu'n effeithiol â staff, partneriaid, cleifion / defnyddwyr gwasanaethau i wireddu ei uchelgeisiau trawsnewid digidol a lleihau i'r eithaf risgiau o allgau digidol?
- A yw'r Bwrdd Iechyd wrthi'n frwd yn defnyddio technoleg ddigidol a datrysiadau data newydd i wella hygyrchedd, ansawdd, effeithlonrwydd a chynhyrchiant ei wasanaethau?

## Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan:

- fewnbwn cyfeirio allanol gan Lywodraeth Cymru, Cyfarwyddwyr Digidol y GIG Cymru Gyfan, ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- strategaethau a chynlluniau perthnasol gan Lywodraeth Cymru;
- adroddiadau adolygu perthnasol ar Drawsnewid Digidol yn y GIG a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a Phwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Tŷ'r Cyffredin;
- Papur polisi Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y GIG yn Lloegr: A plan for digital health and social care; a hefyd
- Fframwaith Cyfarwyddiaeth Drawsnewid y GIG yn Lloegr: What good looks like.

# Dulliau

Fe ofynnom ni i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd):

- gwblhau hunanasesiad i'n helpu i ddeall sut y mae'r sefydliad yn cyflawni trawsnewid digidol;
- rhoi ffeithiau a ffigyrau i ni am ei wariant ar dechnoleg ddigidol, sgiliau digidol ei staff, ei seibergadernid, a sut y mae'n cynnwys pobl mewn trawsnewid digidol.

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau;
- dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys newid sefydliadol y gyfarwyddiaeth Digidol, Data a Thechnoleg a chylchoedd gorchwyl ar gyfer grwpiau llywodraethu allweddol;
- strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y Strategaeth Ddigidol a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig;

- dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys y Gofrestr Risgiau Strategol;
- polisïau a gweithdrefnau perthnasol;
- adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â’r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cyfarwyddwr Digidol;
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rhaglenni Digidol;
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol Interim Strategaeth, Cynllunio a Dylunio;
- Aelod Annibynnol dros Ddigidol.

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad;
- Grŵp Cynnydd y Portffolio Digidol.

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Caffael System Wybodeg ar gyfer Radioleg (RISP)** | Rhaglen genedlaethol gan GIG Cymru i amnewid a moderneiddio'r holl systemau TG radioleg ledled Cymru. Cafodd ei chaffael gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) ar ran yr holl Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd, gyda dyfarniad contract wedi'i gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Cofrestr Risgiau Strategol** | Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. |
| **Cymru Iachach** | Cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n canolbwyntio ar atal, llesiant a rhoi mwy o ofal yn nes at adref. |
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Dyfodol Clinigol** | Cynllun hirdymor blaenorol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i greu system iechyd a gofal gynaliadwy, fodern ledled Gwent. |
| **EMRAM y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd (HIMSS)** | Model aeddfedrwydd rhyngwladol ac iddo wyth cam (0-7) a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Systemau Gwybodaeth a Rheoli Gofal Iechyd i fesur pa mor effeithiol y mae ysbyty wedi mabwysiadu ac yn defnyddio systemau cofnodion meddygol digidol ac electronig. Mae'n asesu cynnydd o ddulliau sylfaenol o gadw cofnodion digidol i ofal sy'n gwbl ddi-bapur, yn seiliedig ar ddata ac yn gallu rhyngweithredu, gan ategu arfer clinigol diogelach, mwy effeithlon. |
| **Fy Nghofnod Meddygol** | Mae'r system hon yn galluogi cleifion i gael mynediad cyflym at ganlyniadau, yn ogystal â chael mynediad at gofnodion ac apwyntiadau clinigol. |
| **Fframwaith Gallu Digidol AaGIC** | Model cenedlaethol sy'n amlinellu'r sgiliau, ymddygiadau a hyder digidol y mae ar staff iechyd a gofal eu hangen, a'r rheiny wedi'u trefnu'n chwe maes gallu gydag offeryn hunanasesu ar gyfer datblygu. |
| **Gwent 2035 – Iechyd Gwell, Gofal Gwell, Bywydau Gwell** | Gwent 2035 yw strategaeth hirdymor newydd y Bwrdd Iechyd, a luniwyd trwy ymgysylltu helaeth a'r Asesiad Strategol ar y Cyd. |
| **OpenEyes** | System cofnodion cleifion electronig (EPR) sydd wedi'i bwriadu'n benodol ar gyfer gwasanaethau offthalmoleg. |
| **Presgripsiynu a Rhoi Meddyginiaethau'n Electronig (ePMA)** | System yn ei ysbytai, sydd wedi'i bwriadu i wella diogelwch cleifion trwy ddogfennu gwell, llifoedd gwaith wedi'u symleiddio, a mynediad mwy effeithlon at gofnodion meddyginiaeth fel rhan o Raglen Meddyginiaethau Digidol GIG Cymru. |

| Term | Disgrifiad |
| --- | --- |
| **Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd** | Rhaglen GIG Cymru sy’n canolbwyntio ar leihau arosiadau hir, gwella effeithlonrwydd gwasanaethau cleifion allanol a theatrau, a sicrhau triniaeth amserol – yn enwedig ar gyfer cleifion canser a’r cleifion sydd wedi bod yn aros hwyaf – trwy optimeiddio llwybrau, ehangu achosion dydd, ac amserlennu gwell. |
| **Rhaglen y Chwe Nod** | Fframwaith trawsnewid cenedlaethol gan GIG Cymru ar gyfer gofal brys ac argyfwng, sydd wedi’i strwythuro ar sail chwe nod sy’n cwmpasu osgoi derbyn i’r ysbyty (Nod 1), asesu wrth y drws ffrynt a llif cleifion (Nodau 2-4), a rhyddhau ac adferiad effeithiol (Nodau 5–6). |
| **Siarter Cynhwysiant Digidol** | Set genedlaethol o ymrwymiadau y mae sefydliadau’n eu harddel er mwyn cefnogi a hybu cynhwysiant ddigidol ledled Cymru mewn modd gweithredol yw Siarter Cynhwysiant Digidol Cymru. |
| **System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS)** | Platfform digidol cenedlaethol a ddefnyddir i reoli’r holl geisiadau am brofion patholeg, eu prosesu, eu tracio ac adrodd arnynt ledled Cymru. |
| **TG Gysgodol** | Mae TG Gysgodol yn cyfeirio at unrhyw feddalwedd, caledwedd, neu wasanaeth technoleg a ddefnyddir mewn sefydliad heb yn wybod i’r adran TG neu heb ei chymeradwyaeth neu ei goruchwyliaeth. |
| **Unwaith i Gymru** | Dull cenedlaethol yn GIG Cymru lle mae system, proses neu safon ddigidol yn cael ei dylunio, ei chaffael a’i rhoi ar waith unwaith ar lefel genedlaethol, yn hytrach na bod pob Bwrdd Iechyd yn creu ei fersiwn ei hun. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru’n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a’r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n gorff a sefydlwyd i gefnogi’r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw’r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae’r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.